OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 2414

# Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004

**Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003**

**5.**—(1) Diwygir Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny—

(a) ym mharagraff 2, ar ôl "os yw'n gymwys" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 10";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**10.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C)(a) a (b) neu 115(6B)(a) a (b) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

(3) Yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny—

(a) ym mharagraff 4, ar ôl "os yw'n gymwys" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 14";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**14.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 4 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C)(a) a (b) neu 115(6B)(a) a (b) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

(**1**) O.S. 2003/2527 (Cy. 242).